## P-04-338 Deiseb ynghylch ymdrech Severn Trent Water i werthu Ystâd Llyn Efyrnwy

### Geiriad y Ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn pryderu ynghylch methiant Severn Trent Water i gynnal y safonau uchaf o gyfrifoldeb corfforaethol a ystyrir yn rhan annatod o weithredu fel cwmni cyfyngedig cyhoeddus.

Drwy beidio ag ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch gwerthu Ystâd Llyn Efyrnwy a drwy beidio â bod yn dryloyw yn hynny o beth, mae Severn Trent Water wedi methu â chyflawni ei strategaeth gorfforaethol ei hun. Mae'r strategaeth honno yn seiliedig ar ymgysylltu ar lefel gymunedol, cyflawni gwelliannau a sicrhau bod sgil-effeithiau economaidd ac amgylcheddol gweithredoedd y cwmni yn gynaliadwy.

Felly, rydym yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio ar unwaith i ymdrech Severn Trent Water i werthu Ystâd Llyn Efyrnwy.

**Linc i'r ddeiseb:** [http://www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions/petitions_under_consideration.htm](http://www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions/petitions_under_consideration.htm)

**Cynigwyd gan:** Annette Griffiths

**Nifer y llofnodion:** 188

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Bydd y Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.